Ysgol Gymraeg Sant Curig

2024-2025

# Cylchlythyr yr Haf

# Summer Newsletter



# Neges wrth y Pennaeth
# Message from the Headteacher



Ar ddiwedd blwyddyn brysur ond llwyddiannus arall, hoffwn unwaith eto, manteisio ar y cyfle i ddiolch i holl staff, plant, rhieni, gwarchodwyr a llywodraethwyr Sant Curig am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn, a'r tymor hwn yn arbennig. Mae'r tymor hwn wedi bod yn un mor bositif o ran cynnydd disgyblion, eu lles a chael y cyfle i groesawu rhieni a gwarchodwyr i'r ysgol i ddathlu gwaith eu plant ac i fwynhau ein gwasanaethau rhagorol. Wnaethon ni ddim cyrraedd ein targed presenoldeb ysgol o 94%, a osodwyd gan yr awdurdod lleol, mae'n edrych yn debyg y byddwn yn gorffen y flwyddyn academaidd hon ar tua 92.1%, sydd yn llai na llynedd yn anffodus. Fe fydd presenoldeb yn ffocws mawr i ni'r flwyddyn nesaf.
Mae disgyblion Sant Curig wedi gweithio'n ddiflino unwaith eto. Fel y gwelwch unwaith eto o'n Cylchlythyr, roedd cymaint o themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol ar draws yr ysgol - diolch i'r staff am drefnu'r digwyddiadau hyn ac i'r holl wahanol bobl a ddaeth i'r ysgol i gyfoethogi'r profiadau a gafodd ein plant. Ac i'n rhieni a'n gwarchodwyr am eu cefnogaeth gyda'r gweithgareddau hyn. Edrychwch yn ofalus ar y lluniau a'r holl wynebau hapus sydd ynddynt!
Tymor o lwyddiant a fu i nifer o'n disgyblion. Buodd criw o blant Blwyddyn 3 yn dathlu llwyddiant mawr gyda gwaith Celf Eisteddfod. Ennill oedd y canlyniad yng Nghaerdydd a'r Fro, yna ymlaen i'r Genedlaethol ble ddaeth yr ysgol yn ail dros Gymru sy'n wych. Fe aeth band Sant Curig – Clwb Curig – un cam ymhellach gyda pherfformiad gwych o 'Patagonia'. Cyfansoddwyd y gân gan y plant o dan arweiniad Mr Llwyd. Perfformiad anhygoel ar lwyfan Yr Adlen yn Margam ddaeth a safle 1af i'r criw arbennig yma. Llwyddiant arbennig iddynt, ac wrth gwrs i'r ysgol!
Yn olaf, gobeithiwn y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, wyliau haf bendigedig ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl ar ddydd Mawrth yr 2ail o Fedi yn ffres ac yn barod am dymor newydd gydag athro newydd! (3ydd o Fedi i blant meithrin) Mae'r staff unwaith eto wedi bod yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ar gyfer y tymor sydd i ddod ac yn gobeithio y byddwch yn gallu rhannu'r gweithgareddau hyn gyda ni yn yr ysgol.

Mwynhewch haf hyfryd, diogel, holl #TeuluCurig!

*At the end of another busy but successful year, I would once again, like to take this opportunity to thank all the staff, children, parents, guardians, and governors of Sant Curig for all their hard work during the year, and this term in particular. This term has been such a positive one in terms of pupil progress, their wellbeing and having the opportunity to welcome parents and guardians into school to celebrate the work of their children and to enjoy our excellent assemblies. We didn't quite hit our school attendance target of 94%, set by the local authority, it looks like we will finish this academic year at around 92.1%, which is lower than last year. Attendance will be a huge focus for us as a school next year.*
*The pupils of Sant Curig have once again worked tirelessly. As you will once again see from our Newsletter, there were so many exciting themes and interesting events right across the school - thank you to staff for arranging these events and to all the different people who came into school to enrich the experiences that our children received and to our parents and guardians for their unwavering support with these activities. Just look carefully at the photos and all the happy faces in them!*
*A term of success for many of our pupils. A group of Year 3 children celebrated great success with their Eisteddfod Art work. The result was a win in Cardiff and the Vale, then on to the Nationals where the school came second across Wales – which is fantastic. Sant Curig's band – Clwb Curig – went one step further with an outstanding performance of 'Patagonia'. The song was composed by the children under the guidance of Mr Llwyd. An incredible performance on the Yr Adlen stage in Margam earned this special group of children…1st place! A remarkable achievement for them, and of course, for the school!*
*Finally, we hope you, our supportive families, have a wonderful summer break and we look forward to welcoming you back on Tuesday the 2nd of September fresh and ready for a new term with a new teacher! (3rd of September for nursery children) The staff have once again been planning exciting activities for the coming term and hope that you will be able share in these activities with us in school.*

*Have a lovely, safe summer to all our #CurigFamily!*

# Dosbarth Derbyn







Dyma ni ar ddiwedd ein tymor olaf yn y Dosbarth Derbyn. Mae hi wedi bod yn dymor prysur llawn sbort a sbri!

Rydym wedi bod yn brysur yn y dosbarth ac yn ein hardaloedd allanol yn dysgu a darllen llawer o straeon am drychfilod! Rydym wedi caru bod tu fas yn y goedwig yn chwilio ac edrych ar ôl y trychfilod sydd yma o'n gwmpas yn Ysgol Sant Curig.


Roedd pawb wedi mwynhau darllen stori'r 'Fuwch goch gota a'i eiriau cyntaf'. Rydym wedi caru dysgu am gylch bywyd y lindysyn a'r fuwch goch gota, cawsom hyd yn oed y cyfle i arsylwi cocŵn yn troi mewn i bili-pala! Cawsom lawer o hwyl yn ystod ein diwrnod rhifedd ar draws yn didoli trychfilod a chreu graff trychfilod!

Er ni ddigwyddodd ein mabolgampau y tro cyntaf ac roedd pawb yn drist iawn, cawsom fore braf yn cystadlu yn y diwedd. Roedd pawb yn WYCH! Diolch enfawr i bawb a ddaeth i gefnogi. Fe fuon ni'n ymarfer yn galed ac roedd pawb wedi rasio yn arbennig. Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn trefnu trip diwedd blwyddyn i gael dathlu gyda'n gilydd ar ôl blwyddyn lawn joio a chreu ffrindiau newydd! Rydym yn athrawon lwcus iawn i gael y fraint o weithio gyda chi a'ch plant y flwyddyn yma. Dymunwn bob lwc i bawb ar ei thaith nesaf ym mlwyddyn 1!





*Here we are at the end of our last term in the Dosbarth Derbyn. It has been a busy term full of fun and games!*
*We have been busy in our class and outdoor area learning and reading lots of stories about minibeasts! We have loved being outdoors, looking for and after the minibeasts that are around us in Ysgol Sant Curig.*
*Everyone enjoyed reading 'What the Ladybird Heard'. We have loved learning about a caterpillar and ladybird's lifecycle, we even had the opportunity to observe a cocoon transforming into a butterfly! We had lots of fun during our numeracy day, sorting minibeasts and making a minibeast graph!*
*Although our sports day didn't happen the first time and everyone was sad, we had a lovely morning competing in the end. Everyone was AMAZING! Thank you to everyone who came to support them. We practiced non-stop and everyone raced fantastically. We are currently busy organising an end-of-year trip to celebrate with each other after a year full of fun and making new friends! We have been very lucky teachers to have the privilege of teaching your children this year. We wish them all the best of luck on their next journey in Year 1!*













# Blwyddyn 6

Mae'r tymor olaf wedi hedfan heibio i ni ym Mlwyddyn 6! Ein thema y tymor hwn oedd trychinebau'r byd lle gwnaethom ddadansoddi'r cwestiwn mawr, 'Sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ein byd bendigedig?'. Gwnaethom ddatblygu dealltwriaeth dda o sut y gall gweithredoedd pobl, gan gynnwys ein gweithredoedd ni, wella neu niweidio'r amgylchedd. Llwyddom i gymharu trychinebau naturiol a dynol a sut mae'r trychinebau yma, megis llifogydd, daeargrynfeydd, a swnamis yn gallu effeithio cymunedau, gwledydd a'r byd cyfan. Buom yn ymchwilio i ddadleuon o blaid ac yn erbyn datgoedwigo ac ysgrifennom ddyddiadur fel anifail yng nghanol tanau gwyllt yn y fforestydd. Llwyddom i greu podcast gan ganolbwyntio ar swnami mewn partneriaid gan ddefnyddio GarageBand. Cawsom hwyl yn ein Mabolgampau olaf. Buom yn gweithio fel tîm, yn annog eraill, ac ymarfer sgiliau. Buom yn rhan o weithdy Crucial Crew a chawsom weithdai gwych gyda National Rail a'r Gwasanaeth Tân. Cawsom hwyl yn ymarfer a pherfformio ein gwasanaeth olaf erioed. Braf fydd cael y cyfle i ddiolch a ffarwelio â holl staff a disgyblion yr ysgol. Byddwn yn gweld eisiau Ysgol Gymraeg Sant Curig yn fawr ond rydym yn edrych ymlaen at y bennod nesaf yn ein bywydau.

Diolch a hwyl fawr i chi gyd!

*The final term has flown by for us in Year 6! Our theme this term was world disasters, where we analysed the big question, "How do our actions affect our wonderful world?" We developed a strong understanding of how human actions, including our own, can improve or harm the environment. We successfully compared natural and man-made disasters, and how these disasters, such as floods, earthquakes, and tsunamis, can affect communities, countries, and the entire world. We explored arguments for and against deforestation and wrote a diary entry from the perspective of an animal caught in wildfires in the forests. We also managed to create a podcast focusing on tsunamis in pairs using GarageBand. We had great fun in our final sports day, working as a team, encouraging others, and practising our skills. We took part in a Crucial Crew workshop and enjoyed fantastic sessions with National Rail and the Fire Service. We had fun practising and performing our final ever school assembly. It was lovely to have the opportunity to say thank you and goodbye to all the staff and pupils of the school. We will really miss Ysgol Gymraeg Sant Curig, but we are excited for the next chapter in our lives.*

*Diolch a hwyl fawr i chi gyd!*







# Codi Arian / Fundraising

Diolch i bawb sydd wedi helpu i godi arian y tymor yma – llwyddwyd i godi £242 tuag at 'Gŵyl Fach y Fro'.

*Thank you to everyone who has helped raise monies this term—we were able to raise £242 towards 'Gŵyl Fach y Fro'.*

A diolch enfawr i'n Tîm Codi Arian yn Ysgol Sant Curig am helpu i godi dros £1500 gyda'r picnic, ffair haf a'r ardd wyllt. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu holl waith caled ac yn falch o allu rhoi'r arian hwn tuag at wella Ysgol Sant Curig.

*And a massive thank you to our Sant Curig Fundraising Team helping to raise over £1500 with the picnic, summer fete and school garden . We are extremely grateful for all their hard work and pleased to be able to put this money towards improving Ysgol Sant Curig.*

**Os hoffech chi wirfoddoli ac yn gallu cynnig unrhyw gymorth gyda'n digwyddiadau yn y dyfodol, cadwch lygad allan ym mis Medi gan y byddwn ni'n trefnu bore coffi yn y gobaith o recriwtio mwy o rieni a rhannu syniadau ar godi arian i'r ysgol!**

***If you would like to volunteer and are able to offer any help with our future events, please keep an eye out in September as we will be arranging a coffee morning in hope to recruit more parents and share ideas on school fundraising!***

# Blwyddyn 5

Am dymor llawn dop arall! Ein thema oedd *'Beth sydd tu hwnt i'n byd?'* ac mae'r disgyblion wedi mwynhau'n fawr ymchwilio i wahanol agweddau ar y gofod.

*What a jam-packed term! Our theme was 'What's beyond our world?' and the children have really enjoyed researching different aspects of space.*

Buom yn dysgu am blanedau Cysawd yr Haul, hanes cyffrous taith Neil Armstrong ac Apollo 11, ac yn trafod a yw teithio i'r gofod yn angenrheidiol ai peidio. Cafwyd profiad arbennig yn Techniquest wrth ymweld â'r planedariwm i ddarganfod mwy am y bydysawd.

*We learned about the planets of the Solar System, the exciting history of Neil Armstrong's journey and Apollo 11, and discussed whether space travel is necessary or not. A special experience was had at Techniquest when visiting the planetarium to discover more about the universe.*

Yn ogystal, bu Blwyddyn 5 yn dathlu Diwrnod Gwyddoniaeth gyda brwdfrydedd mawr – cawsant gyfle i wisgo'n wyddonwyr a chymryd rhan mewn amrywiaeth o arbrofion cyffrous. Roedd ein hymchwiliad i rocedi'n llawn sbort, ac roedd yn braf gweld y plant yn datblygu eu sgiliau gwyddonol. Dangoswyd hefyd eu talentau celf wrth greu darluniau unigryw wedi'u hysbrydoli gan y thema.

*In addition, Year 5 celebrated Science Day with great enthusiasm - they had the opportunity to dress up as scientists and take part in a variety of exciting experiments. Our investigation into rockets was fun, and it was nice to see the children develop their scientific skills. Their artistic talents were also shown when creating unique illustrations inspired by the theme.*

Bu Blwyddyn 5 hefyd yn rhan o'n mabolgampau ym Mharc Jenner, lle ymdrechodd pawb yn wych ac roedd yr awyrgylch yn llawn cyffro.

*Year 5 also took part in our sports in Jenner Park, where everyone put in a great effort and the atmosphere was full of excitement.*

Fe wnaethom hefyd fwynhau trip i Fae Caerdydd i wylio'r sioe *'Y Naid'*, a oedd yn ein dysgu am beryglon dŵr agored, a hefyd chymryd rhan mewn gweithdy diddorol gyda'r gwasanaeth Tân.

*We also enjoyed a trip to Cardiff Bay to watch the show 'Y Naid', which taught us about the dangers of open water, and we also took part in an interesting workshop with the Fire service.*










**Diolch o galon i Flwyddyn 5 am eich holl ymdrech a brwdfrydedd eleni – mwynhewch haf haeddiannol iawn!**


***A big thank you to Year 5 for all your effort and enthusiasm this year - enjoy a well-deserved summer!***

# Blwyddyn 1

Am dymor o hwyl a sbri! Dechreuodd y tymor gan ddarllen stori Jac a'r Goeden Ffa. Dysgom am dyfiant planhigion a beth sydd angen arnynt i gadw'n fyw. Yna symudom ymlaen i ddysgu deunyddiau wrth ddarllen stori'r Tri mochyn bach. Cawsom gyfle i ddatblygu ein sgiliau gwyddonol wrth adeiladu tai i'r moch gan ddefnyddio deunyddiau amrywiol. Dysgom am weddau'r lleuad wrth ddarllen stori 'Sgleinio'r lleuad'. Cawsom amser arbennig yn gwylio'r sioe yn y Memo. Mae'r flwyddyn wedi hedfan ac rydyn ni gyd wedi mwynhau pob eiliad o weithio'n galed, dysgu a datblygu. Diolch am flwyddyn arbennig Blwyddyn 1!





















*What fun we've had in year 1 during the Summer term. We started the term by reading Jack and the beanstalk. We learned about the growth cycle of a flower and what a flower needs to flourish. We then moved on to develop our scientific skills whilst reading The three little pigs. We conducted a science experiment to test the best material for a new home for the pigs. We then moved on to learn about the moon phases whilst reading 'Sgleinio'r lleuad'. We thoroughly enjoyed watching the show in the Memo! This year has flown by and we have enjoyed every minute. Thank you for a wonderful year Blwyddyn 1!*

# Sêr y Tymor







**CYMREICTOD**

*Derbyn - Bodhi / Lucia*

*1 - Hafsa / Grace*

*2 - Ffion / Josefine*

*3 - Emyr / Ezra*

*4 - Rosa / Amaia*

*5 - Mia / Philippa*

*6 - Moli / Amelia*

**YMDRECH**

*Derbyn - Joey-Martyn / Arwen-Mai*

*1 - Archer / Charlie*

*2 - Oscar V / Xavier*

*3 - Riley / Mia*

*4 - Lucas / Eleri*

*5 - Henry / Rhys*

*6 - Felicity / Lily C*

**CYFEILLGARWCH**

*Derbyn - Sofia D / Tomos*

*1 - Alys / Iestyn-Neil*

*2 - Eden A / Nancy P*

*3 - Chloe W / Jayden*

*4 - Summer / Luca*

*5 - William / Llewelyn*

*6 - Manon-Mai / Milly*

# Disgyblion y Flwyddyn!

**Dosbarthiadau'r Derbyn**

*Harper-Grace / Teifi / Arianwen*

**Blwyddyn 1**

*Frankie / Willow*

**Blwyddyn 2**

*Griff / Piper*

**Blwyddyn 3**

*Cassie / Finn*

**Blwyddyn 4**

*Brooke / Isabelle*

**Blwyddyn 5**

*Corey / Carmela*

**Blwyddyn 6**

*Sophie Mc / Esmé*







Am dymor anhygoel! Mae wedi bod yn bleser gwylio'r plant yn tyfu'n ddysgwyr hyderus, chwilfrydig ac annibynnol. Rydym yn falch iawn ohonynt. Maent wedi cofleidio pob cyfle a dangos ymddygiad anhygoel. Y tymor hwn, buom yn archwilio rhai themâu cyffrous, gan gynnwys Pen-blwydd Hapus, Ar y Fferm, Chwaraeon a Chadw'n Iach, ac Ar Lan y Môr. Mwynhaodd y plant pob un thema, gan ddod â'u brwdfrydedd, eu creadigrwydd, a'u chwilfrydedd i bob gweithgaredd. Rydym mor falch o'r bobl bach arbennig y maent wedi tyfu i fod.

Dymunwn haf hapus i chi i gyd!

# Meithrin
# Nursery

*What an incredible term it has been! It has been a joy to watch the children grow into confident, curious, and independent little learners. They have embraced every opportunity, demonstrated impeccable behaviour, and made us so proud. This term, we explored some exciting themes, including Happy Birthday, On the Farm, Sports and Keeping Healthy, and At the Seaside. The children thoroughly enjoyed each theme, bringing their enthusiasm, creativity, and curiosity to every activity. We are so proud of the wonderful little people they have become.*
*Wishing you all a fantastic summer!*











# Blwyddyn 3



Dechrau cyffrous i'r tymor gydag ein hymweliad i Ganolfan Ymwelwyr RNLI y Barri. Diwrnod gwych a dysgu mwy am ddiogelwch wrth ymweld ag ein traethau. Roedd hwn yn sbardun da wrth i ni gyflwyno ein thema 'O Dan y Môr a'i Donnau.' Diolch hefyd am eich cyfraniad at yr elusen.

Yn ystod y tymor llwyddom i adnabod nifer o greaduriaid môr gan ymchwilio ar -lein a mynd ati i greu disgrifiadau yn ein gwaith ysgrifennu. Roedd ein gwaith Gwyddoniaeth wedi galluogi i ni sylweddoli pwysigrwydd cadwyni bwyd. Yn ystyried hyn cawsom gyfle i drafod a dysgu mwy am effaith llygredd ar ein hafonydd a moroedd. Mae'r plant yn ymwybodol o leoliad prif foroedd ein byd. Cawsom hwyl yn dysgu mwy am ein hunaniaeth ac ailadrodd hen chwedl gariad Gymreig Pwyll a Rhiannon.

Roedd ymweliad y plant i Barc Jenner ar gyfer y Mabolgampau yn brofiad newydd, hwylus iddynt. Llwyddom hefyd i ymweld â sawl agwedd o'r Maes Dysgu Celfyddydau Mynegiannol drwy sesiynau cerddoriaeth. Diolch yn fawr i Mr Roberts am arwain ein Prosiect PBuzz. Roedd perfformiad y plant yn y Gyngerdd yn un bythgofiadwy,

I orffen y tymor cawsom gyfle i fwynhau cwmni rhieni gyda dathliad gwaith yn y neuadd. Er mwyn ymlacio a mwynhau diwedd y tymor aethom am dro i Barc Romilly.

Hoffem ddiolch i'r plant am eu hymdrechion eleni ac i'r holl rieni a theuluoedd am y gefnogaeth barhaol. Dymunwn haf hamddenol a hapus i chi gyd a gobeithio bod y plant yn gyffrous am y profiadau newydd sydd yn ei wynebu ym mlwyddyn 4.



















*Our term started with a visit to the local RNLI visitor centre which was an exciting day learning about beach safety and the emergency services which help us on our coastline. The visit was a good inspiration as we began to explore our theme of work – 'Under the Sea and Waves.'*

*During the term we were able to investigate some of our favourite sea creatures through finding facts online and to describe creatures in our written work. Our science work allowed us to learn the importance of food chains. We also learned more about the effects of pollution on our water ways and oceans. The children are aware of how many oceans we have on the planet. We also enjoyed learning about the old Welsh myth of 'Pwyll and Rhiannon'.*

*Our first visit to Jenner Park on Sports day was a great new experience. We also explored the Expressive Arts through Music. The PBuzz Project thanks to Mr Roberts allowed the children to have an insight into the world of music. It was a great performance by all at the Memo.*

*To finish the term we had an opportunity to share our theme of work with parents and had an enjoyable day at Romilly Park relaxing after a busy term.*

*Thanks to all the children for their efforts and company during the year and especially parents and families for their continued support throughout. We wish you all a happy and relaxing summer break and hope the children are looking forward to their new experiences in Year 4.*

# Cyngor Siarter Iaith / Welsh Language Charter Council

Fe lwyddodd yr Ysgol i gyrraedd Eisteddfod Urdd eleni mewn dau gategori.

Yn gyntaf hoffem longyfarch holl aelodau'r band Clwb Curig a ddaeth yn gyntaf drwy Gymru gyfan am eu perfformiad o’r gan ‘Patagonia’.

Yr holl waith ac ymarfer wedi dwyn ffrwyth ac yr Ysgol yn falch iawn o’r llwyddiant. Diolch mawr i Mr Llwyd am ail greu'r band newydd eleni! Yn ogystal hoffem longyfarch y criw Prosiect Celf a ddaeth yn ail drwy Gymru drwy greu darn o waith 2D gyda thema Gwreiddiau. Rydym yn falch iawn o’r holl waith ac ymdrechion a diolchwn i Miss Down a fu’n cydlynu'r prosiect.




Cawsom gyfle i ymfalchïo yn llwyddiant Tîm Pêl-droed Merched Cymru sydd wedi llwyddo i gyrraedd rowndiau terfynol Ewro 2025. Roedd y dathliad gyda Jambori Yr Urdd yn fyw ac ar-lein yn brofiad hapus iawn a llwyth o ganu.

Eto'r tymor hwn ein ffocws oedd ar gynyddu defnydd o’r Gymraeg tu hwnt i’r dosbarthiadau ac fe welir newid mawr wrth i’r disgyblion ddefnyddio mwy o’r Gymraeg ac ennill clod trwy gownteri Cymreictod i gymharu â'r ail dymor. Arhoswn yn eiddgar i glywed y canlyniad am y Llys buddugol.

*Yet again this year, the school was fortunate to reach the National Eisteddfod in two categories.*

*Congratulations to all the members of the band, Clwb Curig who came first overall in Wales with their performance of the song ‘Patagonia’. All the hard work and practice paid off, and the school is very proud of their achievement. A big thank you to Mr Llwyd for bringing the band back together this year!*



*We would also like to congratulate the Arts and Crafts Club members who came second overall in Wales for their interpretation of the theme ‘Gwreiddiau’ (Roots) and their collaboration in creating a 2D piece of art. The school is very proud of this great achievement and thanks Miss Down for coordinating the project.*

*We also celebrated our pride and support for the Welsh Women’s Football Team as they reached the European Finals. The Urdd Jambori, held live and online throughout Wales, was a wonderful experience.*

*This term, we also focused on increasing the use of Welsh among the pupils outside the classrooms, and the results have been excellent, with far more Welsh counters collected this term compared with the second term. We now look forward to finding out which House will be the winner in the final week.*





# Blwyddyn 2







Dyma ni ar ddiwedd ein cyfnod ym mlwyddyn 2. Rydym wedi cael blwyddyn brysur a hapus. Rydym wedi cael profiadau arbennig ac wedi datblygu ein sgiliau ar draws y cwricwlwm.
Rydym wedi cael y cyfle i ddysgu am y tywydd ac i fesur tymheredd, cyflymder y gwynt a faint o law oedd wedi cwympo. Braf oedd cael defnyddio ein sgiliau mathemateg i ddarllen graddfeydd wrth fesur.
Roedd pawb wedi dysgu am y gylchred ddŵr yn ein gwersi gwyddoniaeth yn ogystal â dysgu am anifeiliaid a'u cynefinoedd. Fe ddefnyddion ni ein sgiliau daearyddiaeth gwyddoniaeth, darllen ac ysgrifennu i edrych ar fapiau ac i greu ffeil ffeithiau am anifeiliaid a'u cynefinoedd. Roedd pawb wedi mwynhau cyfres o arbrofion ar ddiwrnod Gwyddonwyr Gwallgof hefyd. Cawsom lawer o hwyl a sbri!.
Hefyd cawsom ddiwrnod wrth ein boddau ar ein hymweliad â Techniquest ac roedd pawb wedi cael y cyfle i arbrofi ac i ddatrys problemau wrth fynd o gwmpas y gweithgareddau.
Yn yr un modd daeth tîm ailgylchu y fro allan i wneud gweithdy gyda ni ar ailgylchu. Roedd pawb wrth eu boddau yn dysgu am ba ddeunyddiau sydd angen ailgylchu a chawsom ymweliad gan y lori ailgylchu hefyd.
Yn ystod y tymor roedd y disgyblion i gyd wedi mwynhau ymarfer ar gyfer ein diwrnod mabolgampau. Braf oedd gweld pawb yn gwneud eu gorau glas ar y diwrnod.
Cafodd y disgyblion brofiad arbennig yn canu ar lwyfan Gŵyl Fach y Fro. Roedd pawb wedi gwneud ymdrech arbennig i ddysgu'r geiriau ac wedi perfformio'n hyderus.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth eleni. Rydym wedi cael blwyddyn arbennig ym mlwyddyn 2. Mwynhewch wyliau'r haf.

Here we are at the end of our time in Year 2. We've had a busy and happy year. We've had special experiences and have developed our skills across the curriculum.
We've had the opportunity to learn about the weather and to measure temperature, wind speed, and the amount of rainfall. It was great to use our maths skills to read scales while measuring.
Everyone learned about the water cycle in our science lessons, as well as learning about animals and their habitats. We used our geography, science, reading, and writing skills to look at maps and create fact files about animals and their habitats. Everyone also enjoyed a series of experiments on Mad Scientists' Day. We had lots of fun and laughter!
We also had a fantastic day on our visit to Techniquest, where everyone had the chance to experiment and solve problems while exploring the activities.
Likewise, the local recycling team came to do a workshop with us on recycling. Everyone loved learning about which materials need to be recycled, and we also had a visit from the recycling lorry.
During the term, all the pupils enjoyed practising for our sports day. It was lovely to see everyone doing their very best on the day.
The pupils had a wonderful experience singing on the stage at Gŵyl Fach y Fro. Everyone had made a special effort to learn the words and performed with confidence.
Thank you very much for your support this year. We've had a wonderful year in Year 2. Enjoy the summer holidays.







# Blwyddyn 4

Am dymor prysur arall ym Mlwyddyn 4!

Mae pawb wedi mwynhau astudio y Tuduriaid yn ystod y tymor olaf ym mlwyddyn 4. Rydym wedi bod yn sgriptio, dawnsio, gwrando ar gerddoriaeth a chreu portreadau. Fe wnaethom fwynhau perfformiad Mewn Cymeriad yn fawr ar ddechrau'r tymor yn esbonio dyfodiad y Tuduriaid drwy drama rhyngweithiol.

Mwynhaodd pawb ein gwersi nofio yng nghanolfan hamdden Y Barri yn ddiweddar. Hefyd mi weithiodd pawb yn galed iawn ar ein gwasanaeth dosbarth yn rhannu Neges ac Ewyllys Da yr Urdd 2025. Am berfformiad gwych, da iawn i bawb!

Rydym wedi gorffen y tymor yn astudio Y Swistir a mwynhau gweithgareddau yn ymwneud ag Ewro 2025 Menywod – pob lwc Cymru! Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddathlu diwedd y flwyddyn gyda thrip i Ynys y Barri.

*What another busy and exciting term for Year 4!*

*Everyone thoroughly enjoyed learning about the Tudors during our final term in Year 4. We have written scripts, danced, listened to Tudor music, and created wonderful portraits. A highlight was the interactive performance by Mewn Cymeriad, which brought to life the rise of the Tudor reign.*

*We also had great fun during our recent swimming lessons at Barry Leisure Centre. The children worked hard to prepare and deliver a fantastic assembly based on the Urdd's Message of Peace and Goodwill, 2025 — what a wonderful performance it was!*

*To round off the term, we explored the country of Switzerland and took part in activities linked to the Women's Euro 2025 competition — good luck to Wales! We're now looking forward to celebrating the end of the year with a well-deserved trip to Barry Island.*



# Dyddiadau / Dates

Diwrnodau HMS - 01/09/25, 05/01/26, 27/03/26, 20/07/26 (dyddiad ychwanegol i'w gadarnhau)

Diwrnod cyntaf nol i blant yw dydd Mawrth yr 2il o Fedi.

(Dydd Mercher y 3ydd i blant y Meithrin)

*INSET Day's - 01/09/25, 05/01/26, 27/03/26, 20/07/26 (additional date TBC)*

*First day back for children is Tuesday the 2nd of September.*

*(Wednesday the 3rd for Nursery children)*

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer o ddyddiau ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2025 | *Dydd Llun 1af o Fedi | Dydd Llun 27ain o Hydref | Dydd Gwener 31ain o Hydref | Dydd Gwener 19eg o Ragfyr | 75 |
| Gwanwyn 2026 | Dydd Llun 5ed o Ionawr | Dydd Llun 16eg o Chwefror | Dydd Gwener 20fed o Chwefror | Dydd Gwener 27ain o Fawrth | 55 |
| Haf 2026 | Dydd Llun 13eg o Ebrill | Dydd Llun 25ain o Fai | Dydd Gwener 29ain o Fai | *Dydd Llun 20fed o Orffennaf | 65 |

| Term | Begin | Half Term | | End | No. of school days |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Begin | End | | |
| Autumn 2025 | *Monday 1st September | Monday 27th October | Friday 31st October | Friday 19th December | 75 |
| Spring 2026 | Monday 5th January | Monday 16th February | Friday 20th February | Friday 27th March | 55 |
| Summer 2026 | Monday 13th April | Monday 25th May | Friday 29th May | *Monday 20th July | 65 |